Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 31 |
| Atodiadau | 35 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 36 |
| 2 Argymhellion blaenorol | 40 |
| 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 47 |
| 4 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr | 51 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaeth ein Hadolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd yn 2022 archwilio sut y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn rheoli ansawdd gwasanaethau. Fe wnaethom fwrw golwg ar ddiwylliant ac ymddygiadau, strategaeth ansawdd, a strwythurau llywodraethu. Fe wnaethom 12 argymhelliad a'r rheiny'n canolbwyntio ar y canlynol:

- blaenoriaethau ansawdd a diogelwch cleifion;
- rheoli risg;
- archwilio clinigol; adolygiadau o farwolaethau a sut yr ymdrinnir â chwynion;
- trefniadau i rannu gwersi ac arfer da;
- gwerthoedd ac ymddygiadau; a
- llywodraethu a goruchwyliaeth.

2 Mae'r adolygiad dilynol hwn yn asesu i ba raddau y mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn ategu gwasanaethau diogel o ansawdd da. Fel rhan o hyn, rydym wedi asesu'r cynnydd gyda'r argymhellion o'n hadolygiad yn 2022. Fe wnaeth ein gwaith ystyried sut yr atebir gofynion y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd, a threfniadau goruchwylio a chraffu cysylltiedig, hefyd.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Dylai ansawdd fod yn 'greiddiol' i bob agwedd ar ofal iechyd ac mae 'rhoi ansawdd a diogelwch' uwchlaw popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n tanategu'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael fod yn gostus o ran gwastraff ac amrywiad na ellir ei gyfiawnhau mewn gwasanaethau ond, yn bwysicaf oll, gall arwain at niwed a deilliannau gwael i gleifion.

4 Ym mis Chwefror 2023, fe wnaeth Llywodraeth Cymru uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd i Lefel Pump (Mesurau Arbennig)[1]. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru nodi'r camau gweithredu y mae'n disgwyl i'r Bwrdd Iechyd eu cyflawni, sy'n cynnwys:

- gwella amseroedd ymateb i gwynion;
- gwneud cynnydd o ran rhoi'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd ar waith a chydymffurfio â hwy;
- ymateb yn effeithiol i adolygiadau allanol; a
- defnyddio dangosfyrddau'r rhaglen archwilio clinigol genedlaethol a Gwerth mewn Iechyd i roi cymorth i wella ansawdd.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

5 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ansawdd, ond ceir gwendidau o hyd y mae angen iddo ymdrin â hwy. Mae wedi sefydlu rhannau allweddol o System Rheoli Ansawdd (QMS) ddigidol ac wedi diweddaru nifer o fframweithiau llywodraethu. Ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar flaenoriaethau ansawdd eglur, gydag arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf ar draws a thrwy'r sefydliad i gyd er mwyn eu cyflawni.

6 Mae gwaith cynnar i roi'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd ar waith wedi dechrau, ond mae bylchau sylweddol yn dal i fodoli o ran arweinyddiaeth ar ansawdd, hyfforddiant staff a phrosesau adrodd. Mae gan y Bwrdd Iechyd system ddysgu newydd, ond nid yw wastad yn dangos bod gwersi'n cael eu dysgu. Mae amseroldeb ymateb i gwynion wedi gwella. Fodd bynnag, mae niferoedd cynyddol y cwynion yn gosod pwysau ar dimau. Mae nifer yr achosion sy'n cael eu hail-agor hefyd yn awgrymu bod angen cryfhau ansawdd ymchwiliadau.

[1] Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru | LLYW.CYMRU

7 Gallai'r Bwrdd Iechyd fynd ati ymhellach i wella goruchwyliaeth ar ansawdd ar lefelau'r Bwrdd a phwyllgorau. Nid yw wedi gwneud digon eto i gryfhau ei ffocws a'i oruchwyliaeth ar ansawdd gwasanaethau wedi'u comisiynu yn dilyn pryderon a godwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn yr un modd, er gwaethaf gwelliannau o ran cyflwyno adroddiadau dan y rhaglen archwilio clinigol genedlaethol, nid yw'r rhaglen archwilio clinigol leol yn seiliedig ar risg. O ganlyniad, mae cyfle'n gael ei golli i ddarparu sicrwydd wedi'i dargedu ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ynghylch meysydd sy'n peri pryder.

8 Cymysg yw cynnydd y Bwrdd Iechyd gydag argymhellion archwilio 2022. Mae wedi cymryd camau gweithredu i gryfhau trefniadau ar gyfer adolygiadau o farwolaethau, diwylliant, ac adborth cleifion, ond mae wedi gwneud llai o gynnydd mewn meysydd eraill.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym wedi cyflwyno naw argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd, sy'n canolbwyntio ar:

- Sefydlu blaenoriaethau ansawdd eglur;
- Cryfhau systemau sicrwydd a dysgu;
- Gwella hyfforddiant ar systemau a phrosesau llywodraethu ansawdd ac ymwybyddiaeth ohonynt o fewn y sefydliad; a
- Gwella goruchwyliaeth gorfforaethol ar ofal wedi'i gomisiynu a chwynion.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

| | |
|---|---|
| **3,000** | nifer cyfartalog y digwyddiadau diogelwch cleifion bob mis. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 100 y dydd. |
| **4,900** | digwyddiadau diogelwch cleifion sydd ar agor, gyda 58.6% yn rhai lle mae'r ymchwiliad yn hwyr yn cael ei gynnal. |
| **291** | cwynion sydd ar agor gyda chyfartaledd o 20 niwrnod gwaith i ddatrys cwynion. Perfformiad y Bwrdd Iechyd yw'r gorau yng Nghymru ar hyn o bryd. |
| **41** | cysylltiadau newydd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd 2025, y nifer uchaf am flwyddyn. Fe benderfynodd OGCC **beidio** ag ymchwilio i 29 (71%) o'r rhain. |
| **£57,000** | mewn cosbau ariannol am Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau hwyr rhwng mis Ebrill 2024 a mis Chwefror 2026, gostyngiad o 67% o'i gymharu â'r £172,500 o gosbau a gafwyd yn 2024-25. |
| **9** | Nifer y digwyddiadau "byth" a gofnodwyd yn ystod 2025-26, o'i gymharu â phump yn 2024-25. |

Ffynhonnell: Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, Ionawr 2026

# Ein canfyddiadau

## Cynlluniau a chynllunio ansawdd

### Nid yw dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio ar gyfer gwella ansawdd yn ddigon cadarn eto

#### Cynlluniau a blaenoriaethau ansawdd

10 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i nodi blaenoriaethau ansawdd eglur a rhaglen gydgysylltiedig i'w cyflawni. Ar adeg ein gwaith ni nid oedd gan y Bwrdd Iechyd gynllun ansawdd ar ei ben ei hun. Nid yw wedi diweddaru ei Strategaeth Ansawdd flaenorol (2017-20), gan y bu'n well ganddo integreiddio ansawdd fel rhan o gynlluniau presennol gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Nid yw'r dull hwn i'w weld fel pe bai'n ysgogi digon o bwyslais ar wella ansawdd. Mae hefyd yn gadael rhai bylchau.

11 Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd 2025-28 yw ei brif gynllun ar gyfer gwella ansawdd, a ategir gan y System Rheoli Ansawdd (QMS) a'r Fframwaith Rheoli Ansawdd. Mae'n nodi sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei bum amcan strategol. Mae'r CTCI yn cynnwys nifer o flaenoriaethau cyflawni sy'n gysylltiedig â'r amcan i 'Wella Ansawdd, Deilliannau a Phrofiad'. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau hyn yn cysylltu â thargedau gweithrediadol yn bennaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys lleihau amseroedd aros ar gyfer gofal a gynlluniwyd a gofal brys a gofal mewn argyfwng. O ganlyniad, mae'r CTCI yn bwrw golwg gul ar ansawdd. Mae'n rhoi mwy o bwys ar berfformiad nag ar agweddau eraill sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol, a phrofiad cleifion.

12 Mae ansawdd yn fwy amlwg yn CTCI y Bwrdd Iechyd 2026-29 nag oedd yn y CTCI blaenorol (2025-28). Canfu ein hadolygiad ni o'r CTCI 2025-28 fod blaenoriaethau ansawdd y Bwrdd Iechyd yn cysylltu'n bennaf â thargedau perfformiad gweithrediadol. Hefyd, nid oedd y cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer pryderon megis atal heintiau, sepsis, neu leihau niwed o ganlyniad i ddoluriau pwyso. Canfu ein hadolygiad o CTCI 2026-29 ei fod yn cynnwys ystod ehangach o gamau gweithredu i wella diogelwch, deilliannau a phrofiad cleifion.

13 Hyd yn oed gyda'r gwelliant hwn, nid yw CTCI 2026-29 yn rhoi cynllun cyffredinol eglur i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sut y bydd yn rheoli ac yn gwella ansawdd. Yn arbennig, nid yw'r cynllun yn nodi nifer fach o flaenoriaethau ansawdd cyffredin, a ategir gan fesurau cyson a dull eglur o ymdrin â sicrwydd. Er enghraifft, er bod y CTCI yn cynnwys mesurau megis amseroedd ymateb i gwynion, cyflwynir y rhain fel camau gweithredu unigol mewn meysydd gwasanaeth penodol.

14 Ceir risg bod diffyg cynllun a blaenoriaethau ansawdd eglur yn effeithio ar ddealltwriaeth staff am nodau ansawdd. Er bod y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu System Rheoli Ansawdd, nid yw'n cael ei rhoi ar waith yn dda eto. Mae'r Fframwaith Rheoli Ansawdd yn darparu strwythur a phrosesau. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn trosi hyn yn set o flaenoriaethau, safonau, neu ddeilliannau ansawdd y cytunwyd arnynt i staff a gwasanaethau weithio tuag atynt.

15 Canfu ein gwaith y gallai staff adnabod blaenoriaethau perfformiad yn gyson, megis amseroldeb ymateb i gwynion, ac arosiadau mewn adrannau argyfwng ac ar gyfer gofal a gynlluniwyd. Ond roeddent yn ei chael hi'n anodd disgrifio blaenoriaethau gwella ansawdd ehangach. Mae hyn yn awgrymu bod dealltwriaeth staff am ansawdd yn cael ei siapio gan yr hyn a gaiff ei feintioli mewn adroddiadau perfformiad yn hytrach na chynlluniau gwella ansawdd ehangach.

16 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mewn cryn fanylder beth yw ei disgwyliadau o ran gwella ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, ein barn ni yw nad yw'r CTCI yn darparu mecanwaith digon cadarn i ysgogi'r gwelliannau mewn ansawdd y mae eu hangen. Mae angen amlwg am gynllun ansawdd ar ei ben ei hun. Dylai'r cynllun hwn nodi blaenoriaethau ansawdd, a'r arweinyddiaeth, yr adnoddau a'r rhaglen i'w gyflawni. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddangos ymateb cydgysylltiedig i ofynion uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru.

# Ymateb i'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gyflawni'r dyletswyddau, ond mae bylchau mewn rolau arwain, goruchwyliaeth ar hyfforddiant ac mewn prosesau adrodd yn cyfyngu ar sicrwydd ynghylch y modd y mae'n eu cyflawni

### Rolau a chyfrifoldebau

17 Mae canllawiau'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff y GIG sefydlu llinellau atebolrwydd eglur ar gyfer cyflawni'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod rolau arwain yn cael eu diffinio ar bob lefel.

18 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dirprwyo arweinyddiaeth strategol ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn eglur i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau ehangach ar gyfer arweinwyr gweithredol, gweithrediadol a chlinigol eraill yn aneglur. Rydym yn deall bod hyn yn deillio o fylchau blaenorol a pharhaus mewn rheolaeth ac mewn arweinyddiaeth glinigol.

19 Fe gododd nifer o gyfweliadau bryderon ynghylch amlygrwydd a chydlyniad arweinyddiaeth ar ansawdd yn fwy eang. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau eglur a gwreiddio arweinyddiaeth ar draws grwpiau ansawdd.

20 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n adolygu ei strwythurau sefydliadol fel rhan o'i raglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n barhaus a bydd yn parhau trwy gydol 2026. Wrth iddo fynd rhagddo, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn diffinio atebolrwydd eglur am gyflawni'r ddwy ddyletswydd.

## Hyfforddiant

21 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i friffio aelodau'r Bwrdd ar y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd. Fodd bynnag, mae angen iddo wneud mwy i ddarparu sicrwydd ei fod yn rhoi digon o hyfforddiant i staff gweithrediadol. Mae swyddogion gweithredol ac Aelodau Annibynnol wedi cael diweddariadau ar y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd, gyda sesiwn yn 2024 ac un arall yn yr arfaeth ar gyfer gwanwyn 2026.

22 Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd bod staff gweithrediadol yn cael hyfforddiant gofynnol ar y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd. Rhoddodd adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r Ddyletswydd Ansawdd ym mis Mehefin 2025 sgôr sicrwydd rhesymol ond fe adnabu fylchau allweddol. Mae hyn yn cynnwys diffyg rhaglen hyfforddi strwythuredig a'r anallu i wirio faint sy'n manteisio ar hyfforddiant. Fe gwblhaodd y Bwrdd Iechyd ddadansoddiad o anghenion hyfforddi ym mis Awst 2025. Ers hynny, nid yw'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant na'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi cael adroddiadau sy'n dangos cynnydd. Mae'r Polisi Pryderon Integredig hefyd yn nodi gofynion hyfforddi eglur ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol i ymchwilwyr. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar gyfraddau cydymffurfio.

## System Rheoli Ansawdd (QMS)

23 Nid oes llawer o gynnydd wedi bod eto gyda gwaith y Bwrdd Iechyd i ddatblygu a gweithredu'r System Rheoli Ansawdd a'r Fframwaith Rheoli Ansawdd. I helpu i ateb gofynion y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu, fe ddechreuodd y Bwrdd Iechyd ei daith i ddatblygu ei System Rheoli Ansawdd gyda chyflwyniad i'r Bwrdd ym mis Mai 2024 a oedd yn nodi egwyddorion lefel uchel. Fe wnaeth y sesiwn datblygu'r Bwrdd yn fwy diweddar ym mis Chwefror 2026 ddechrau archwilio:

- rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd ar gyfer System Rheoli Ansawdd;
- creu'r amodau a'r ffactorau galluogi sefydliadol ar gyfer System Rheoli Ansawdd; a
- defnyddio data yn y Bwrdd fel rhan o System Rheoli Ansawdd.

24 Dylai'r System Rheoli Ansawdd ddarparu model strwythuredig, ar draws y sefydliad cyfan sydd o gymorth i gynllunio ansawdd, ei fonitro, rhoi sicrwydd yn ei gylch a'i wella. Dylai amcanu at wella gwersi, tryloywder, a rhoi cymorth i wneud penderfyniadau ar sail data ar draws yr holl wasanaethau. Eto nid yw'r dull o ran y System Rheoli Ansawdd wedi datblygu'n dda nac wedi'i wreiddio'n dda gyda chynnydd cyfyngedig o ran rhoi'r dull ar waith ar draws gwasanaethau. Er nad dyma'r unig reswm dros yr oedi, bu saib tra bo'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn datblygu.

25 Ategir dull y System Rheoli Ansawdd gan Fframwaith Rheoli Ansawdd lefel uchel. Cyfyngedig yw'r manylder y mae'r Fframwaith hwn yn ei ddarparu am weithredu'r System Rheoli Ansawdd. Mae'n rhoi crynodeb i'r darllenydd o nodau'r System Rheoli Ansawdd a sut y mae'n cyd-fynd ag Amcanion Strategol y Bwrdd. Mae'r Fframwaith Rheoli Ansawdd yn nodi bod angen datblygiad pellach ar draws yr holl feysydd ansawdd ac y bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu. Nid oedd hwn wedi cael ei gwblhau ar adeg ein hadolygiad ni.

26 Mae Dangosfwrdd Ansawdd y Bwrdd Iechyd yn darparu data ar wasanaethau mewn amser real. Mae'r dangosfwrdd o gymorth i fonitro perfformiad, uwchgyfeirio ac adrodd ar ddigwyddiadau. Mae'n dwyn data ynghyd o'r system Datix[2] a'r system Monitro a Thracio Argymhellion Archwilio. Ni chanfu adolygiad Archwilio Mewnol o reoli cwynion ym mis Tachwedd 2025 unrhyw dystiolaeth ar Datix i ddangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau na chau camau gweithredu'r Cynllun Dysgu a Gwella. Ni chanfu'r archwiliad unrhyw broses reolaidd i ddilysu camau gweithredu a gwblhawyd ychwaith.

---

[2] Offeryn meddalwedd yn y cwmwl o fewn GIG Cymru yw Datix, sydd â nifer o fodiwlau, gan gynnwys systemau i logio ac ymdrin â chofnodion diogelwch cleifion, iechyd a diogelwch a chwynion

27 O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2026, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd asesu ei aeddfedrwydd o ran ymateb i'r Ddyletswydd Gonestrwydd fel 'Melyn/Yn Gweithredoli'. Dengys hyn ei fod yn cydnabod yr angen i wneud mwy cyn ei fod yn cyflawni'r ddyletswydd yn llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar gynllun gwella i ymdrin â'r bylchau sy'n weddill yn ystod 2026. Mae hyn yn cynnwys gwreiddio gwersi sefydliadol. Ym mis Mehefin 2025, rhoddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol farn sicrwydd rhesymol ynghylch y Ddyletswydd Ansawdd. Fodd bynnag, amlygodd yr angen i wella'r Polisi Rheoleiddio Ansawdd, gwella hyfforddiant staff a darparu canllawiau ynghylch sut i ddefnyddio'r System Rheoli Ansawdd.

## Monitro a goruchwylio'r ymateb i'r dyletswyddau

28 Mae canllawiau statudol ar gyfer y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu'n nodi disgwyliadau penodol ar gyfer sut y mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG weithredu'r dyletswyddau, dangos tystiolaeth ohonynt ac adrodd arnynt yn ystod y flwyddyn a thrwy adroddiadau cyhoeddus blynyddol.

29 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei ddull adrodd, ond nid yw'n ateb y gofynion adrodd yn y Ddeddf yn llawn eto. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael casgliad gweddol gynhwysfawr o adroddiadau ansawdd, diogelwch a phrofiad rheolaidd. Mae adroddiadau rheolaidd yn cynnwys yr:

- Adroddiad Ansawdd Integredig;
- Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig;
- canfyddiadau arolygiadau rheoleiddio; ac
- allbynnau archwilio cenedlaethol.

30 Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys data helaeth ar ansawdd a pherfformiad a naratif ategol. Ond nid ydynt yn fframio'r wybodaeth hon yn eglur o safbwynt y dyletswyddau statudol. Er enghraifft, nid yw adroddiadau'n disgrifio'r effaith ar ansawdd yn gyson mewn perthynas â'r chwe maes ansawdd a'r chwe ffactor galluogi a nodir mewn canllawiau statudol ac nid ydynt yn darparu gwybodaeth am nifer yr achosion gonestrwydd a chydymffurfiaeth â'r weithdrefn gonestrwydd. Rhagnodir yr elfennau hyn yn y canllawiau statudol ar gyfer y dyletswyddau.

31 Gwelsom gyfle tebyg i wella Adroddiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Ym mis Medi 2025 y cyhoeddodd yr adroddiad hwn ddiwethaf. Mae adroddiad 2024-25 yn nodi'n glir waith i wella profiad cleifion a'u deilliannau gofal. Fe amlygodd nifer o welliannau ar lefel gwasanaethau, megis amseroedd aros byrrach trwy'r Hyb Gofal a Gynlluniwyd. Ond nid yw'n dweud rhyw lawer am sut y gwnaeth tystiolaeth o ansawdd roi arweiniad ar gyfer dewisiadau mawr, megis newidiadau i'r sefydliad neu benderfyniadau ynglŷn ag adferiad ariannol.

32 Mae'r Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd 2024-25 yn nodi'n glir beth yw gofynion y Ddyletswydd a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd. Ond byddai'r adroddiad yn gryfach pe bai'n cynnwys rhagor o fanylion yr hyn a ddysgodd y Bwrdd Iechyd o achosion gonestrwydd a'r hyn a wellodd wedi hynny. Yn 2024-25, mae'r naratif yn canolbwyntio ar drefniadau yn hytrach na sicrwydd ynghylch camau gweithredu a'r gwahaniaeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud.

# Dysgu o adborth ar ansawdd gwasanaethau

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella sut y mae'n dysgu o adborth ar ansawdd gwasanaethau, er bod angen iddo ddangos yn well bod gwersi wedi cael eu mabwysiadu'n effeithiol

### Gwrando ar staff

33 Yn 2022, fe argymhellom ni fod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau sut y mae'n ymdrin â phryderon staff ynghylch bwlio, aflonyddu a cham-drin, a oedd yn thema yn arolwg staff 2022, a sut y mae'n dysgu o'r rhain. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau i ymdrin â'r pryderon hyn, fel a ganlyn:

- Ym mis Awst 2023, fe gyflwynodd ddangosfwrdd diwylliant, i dracio diwylliant sefydliadol. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys mesurau megis absenoldeb oherwydd salwch, swyddi gwag, trosiant staff a phryderon

Codi Llais yn Ddiogel y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cyflwyno mewn Adroddiad Synthesis Diwylliant.

- Ym mis Medi 2023, fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd Raglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth, ar gyfer arweinwyr ar bob lefel ar draws y sefydliad.
- Ym mis Medi 2024, fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddull 'Codi Llais yn Ddiogel' newydd. Ei nod yw gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn gallu codi pryderon yn ddiogel ac yn hyderus. Ategir y dull gan rwydwaith o Warcheidwaid Rhyddid i Godi Llais, system hysbysu ddigidol ddienw, a chanllawiau a deunydd cyfathrebu eglur.
- Ym mis Tachwedd 2024, fe gymeradwyodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd. Fe ddatblygodd swyddogion y Fframwaith trwy ymgysylltu eang â staff ac mae'n nodi disgwyliadau ar gyfer sut y dylai'r holl staff weithio, ymddwyn, a rhyngweithio â defnyddwyr gwasanaethau, cydweithwyr a phartneriaid.

34 Mae'r camau gweithredu hyn yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ymateb i bryderon ynghylch bwlio ac aflonyddu. Rydym felly o'r farn bod yr argymhelliad a wnaethom yn 2022 wedi'i gwblhau.

35 Fodd bynnag, rydym yn nodi y bydd angen parhau i wella yn erbyn metrigau sy'n gysylltiedig â bwlio ac aflonyddu yn arolwg staff blynyddol y GIG, a monitro'r metrigau hynny'n fanwl, a fydd yn dangos a yw'r Bwrdd Iechyd yn cymryd y camau gweithredu cywir ac yn dysgu'r gwersi o bryderon staff. Nid oedd canlyniadau arolwg staff y GIG 2025 ar gael eto ar adeg ein hadolygiad ni ond disgwylir adroddiad arnynt yng ngwanwyn 2026.


## Cwynion

36 Mae Polisi Pryderon Integredig y Bwrdd Iechyd, a fabwysiadwyd ym mis Medi 2024, yn cyd-fynd â’r Rheoliadau Gweithio i Wella cenedlaethol ac yn rhoi canllawiau a gweithdrefnau eglur i staff ar gyfer adnabod cwynion, pryderon ac adolygiadau o farwolaethau, ymateb iddynt a dysgu ohonynt. Y Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr yw’r prif grŵp gweithrediadol ar gyfer goruchwylio cwynion. Mae’n cydweithio gyda grwpiau gweithrediadol perthnasol eraill i adrodd wrth y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol am wybodaeth ynghylch cwynion. Roedd cyfweliadau’n dynodi bod y broses hon yn gweithio’n dda.

37 Mae’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn darparu goruchwyliaeth gorfforaethol ar gwynion. Mae’n cael diweddariadau rheolaidd trwy’r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig ac yn ystyried dadansoddiad manylach yn yr Adroddiad Ansawdd Integredig. Mae hyn yn cynnwys nifer y cwynion newydd, agored, a hwyr, ynghyd â’r prif themâu. Ym mis Mawrth 2026, roedd y themâu mwyaf cyffredin yn dal i ymwneud ag amseroedd aros hir a phrofiadau gwael mewn adrannau argyfwng.

38 Mae adroddiadau’n dangos gwelliannau sylweddol yn amseroldeb ei ymatebion i gwynion dros y misoedd diwethaf, fel a ddangosir yn **Arddangosyn 1**. Mae data meincnodi a ddarparwyd yn yr Adroddiad Ansawdd Integredig yn dangos sut y mae’r perfformiad hwn yn gyson yn cymharu’n dda â byrddau eraill Cymru hefyd.

**Arddangosyn 1: canran y cwynion a gaewyd o fewn 30 niwrnod, Ebrill 2024 – Rhagfyr 2025**




Ffynhonnell: Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig rhwng mis Awst 2024 a mis Mawrth 2026.

39 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwell amseroldeb ymatebion i gwynion, mae nifer y cwynion yn parhau i godi ar gyflymder a allai eu gwneud yn anodd i'w rheoli. Yn 2024-25, fe gofnododd 2,412 o gwynion, i fyny 17.7% o 2,049 yn y flwyddyn flaenorol. Erbyn mis Mawrth 2026, roedd y Bwrdd Iechyd yn cael 66 o gwynion bob wythnos ar gyfartaledd ac yn cau 60. I ymdrin â'r galw cynyddol hwn, mae'n bwriadu canolbwyntio'n fwy ar ddatrys yn gynnar ac ar ddefnyddio gwersi a gwella i leihau'r angen i bobl gwyno.

40 Ochr yn ochr â chynnydd mewn cwynion newydd, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi profi cynnydd o 43% mewn achosion a ail-agorwyd, o 131 yn 2023-24 i 229 yn 2024-25. Gall hyn awgrymu nad yw rhai pobl yn fodlon ar yr ymateb cyntaf. Fodd bynnag, gall achosion gael eu hail-agor am nifer o resymau. Er enghraifft, gall pobl ofyn cwestiynau newydd, rhannu rhagor o wybodaeth, neu fod eisiau esboniad pellach. Ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael gweld y materion hyn yn glir. Byddai o fudd iddo gael yr Adroddiadau Adolygu Profiad a Chwynion Cleifion blynyddol. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu mewnwelediad defnyddiol i dueddiadau tymor hwy ac effeithiolrwydd trefniadau i ymdrin â chwynion.

41 Mae nifer uchel y cwynion a ail-agorwyd hefyd yn awgrymu bylchau yn hyfforddiant staff. Fe godom ni'r mater hwn gyntaf yn ein hadolygiad yn 2022. Ers hynny, ni fu rhyw lawer o gynnydd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i beidio â monitro cyfraddau cwblhau hyfforddiant yn ddigon da. Am y rhesymau hyn, rydym o'r farn bod cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn yn dal i fynd rhagddo.

42 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Proses 'Gwrando ar Bobl[3]' newydd sy'n disodli'r trefniadau Gweithio i Wella presennol o fis Ebrill 2026. Mae'r fframwaith diwygiedig yn cyflwyno tri newid allweddol:

- cam datrys yn gynnar wedi'i gryfhau sydd wedi'i estyn o 2 i 10 niwrnod gwaith;
- cynnig gorfodol o drafodaethau gwrando gyda phob achwynydd; a hefyd
- trothwy iawndal uwch gyda graddfeydd amser byrrach ar gyfer ymchwilio.

[3] Gwrando ar Bobl – Gwelliannau i system gwynion GIG Cymru

43 O ganlyniad i’r gofynion newydd hyn, mae’r Bwrdd Iechyd yn disgwyl gweld cynnydd ym maint y gwaith y bydd timau rheng-flaen yn ymdrin ag ef, o ystyried y gofyniad i wasanaethau clinigol a gweithrediadol gefnogi penderfyniadau dan y Broses newydd. Mewn ymateb, mae’n ailddylunio ei fodel ymdrin â phryderon. Mae’n bwriadu disodli ei Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion â Gwasanaeth Ymholiadau a Datrysiadau Pobl (PEARS) newydd a fydd yn gweithredu fel un pwynt cyswllt, yn rheoli ymholiadau, yn cau cwynion ar radd is, ac yn hwyluso trafodaethau gwrando. Bydd Tîm Profiad Pobl newydd yn canolbwyntio ar waith profiad cleifion a gwreiddio gwersi ehangach.

## Ymateb i adborth cleifion

44 Mae adborth cleifion yn ffynhonnell werthfawr i gael gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau. Mae’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio data a gwybodaeth mewn amser real gan y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion i gasglu adborth cleifion. Mae’r Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr yn adolygu’r adborth hwn, yn dwyn y canfyddiadau ynghyd, ac yn adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad bob deufis. Fodd bynnag, nid yw’r Bwrdd Iechyd yn tracio sut y mae timau’n gwerthuso gwersi o adborth ar brofiad cleifion na sut y maent yn ei ddefnyddio i wella ansawdd. Dim ond gwelliannau bychain ym mhrofiad cleifion ar draws pob maes y mae’r Adolygiad o Brofiad a Chwynion Cleifion ar gyfer 2024-25 yn eu dangos.

45 Canfu ein hadolygiad yn 2022 mai llai na hanner y staff a arolygwyd sy’n teimlo eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion yn y maes y maent hwy’n gweithio ynddo. Fe argymhellom ni wedyn fod y Bwrdd Iechyd yn ymdrin â’r mater hwn. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer rhannu adborth cleifion gyda staff fel rhan o’r drefn arferol ers hynny. Er enghraifft, mae adborth yn cael ei rannu gyda staff rheng-flaen trwy arddangos canlyniadau ar fyrddau wardiau. Fe roddodd adolygiad Archwilio Mewnol o Brofiad Cleifion ym mis Hydref 2025 sgôr sicrwydd sylweddol hefyd. Rydym felly o’r farn bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau’r argymhelliad a wnaethom yn y maes hwn yn 2022.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cryfhau ei drefniadau ymhellach wrth ymateb i Broses 'Gwrando ar Bobl' Llywodraeth Cymru. Mae'n bwriadu gwella'r modd y rhennir adborth cleifion gyda staff i roi cymorth i ddysgu gwersi ar lefel wardiau. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod cyflawni'r cynllun hwn yn ddibynnol ar ddod o hyd i fuddsoddiad ar gyfer staff ychwanegol.

## Dysgu o adolygiadau o farwolaethau

47 Yn 2013, fe gynghorodd Prif Swyddog Meddygol GIG Cymru y dylai pob marwolaeth mewn ysbyty gael ei hadolygu. Mae Polisi Pryderon Integredig y Bwrdd Iechyd yn egluro rolau clinigwyr a phwyllgorau yn y broses hon. Mae Tîm Adolygu Marwolaethau a arweinir gan glinigydd yn cynnal yr adolygiadau ac yn adrodd wrth y Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Strategol ar y canfyddiadau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys staff o wasanaethau therapi, fferylliaeth, ac ymchwil a datblygu. Wedyn mae Fforwm Dysgu o Farwolaethau'n bwrw golwg ar y canfyddiadau, yn adnabod gwersi, ac yn eu rhannu ar draws gwasanaethau.

48 Yn ein hadolygiad yn 2022, fe argymhellom ni fod y Bwrdd Iechyd yn sefydlu system fel bod staff o wahanol broffesiynau'n cymryd rhan mewn adolygiadau o farwolaethau fel mater o drefn. Gyda goruchwyliaeth amlddisgyblaethol fwy strwythuredig yn ei lle erbyn hyn, rydym o'r farn bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.

49 Fe argymhellodd ein hadolygiad yn 2022 hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod ei Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael adroddiadau adolygu marwolaethau chwarterol sy'n amlygu gwersi. Canfu ein hadolygiad diweddar fod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad bellach yn cael diweddariadau adolygu marwolaethau rheolaidd trwy'r Adroddiad Ansawdd Integredig deufisol. Yn gynnar yn 2024, roedd gan y Bwrdd Iechyd ôl-groniad mawr o adolygiadau o farwolaethau, a oedd yn gyfanswm o oddeutu 500 o achosion. Tuag at ddiwedd 2025, roedd hwn wedi gostwng, gydag achosion lle'r oedd craffu yn yr arfaeth wedi gostwng o oddeutu 450 ym mis Tachwedd i oddeutu 390 ym mis Rhagfyr, ymchwiliadau wedi gostwng o oddeutu 140 i 65, a dim ôl-groniad sylweddol yn weddill yng Nghymuned Gofal Iechyd Integredig y Gorllewin.

50 Mae themâu o adolygiadau o farwolaethau'n dal i ganolbwyntio ar bryderon ynghylch triniaeth glinigol, gofal cleifion, a chofnodi a defnyddio penderfyniadau Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cychwyn rhaglen i ymdrin â'r materion mynych hyn. Dylai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad adolygu effaith y gwaith hwn i benderfynu a yw gwersi wedi cael eu rhoi ar waith fel a fwriadwyd.

Gwreiddio gwersi o adolygiadau mewnol ac allanol

51 Mae gan y Bwrdd Iechyd dri grŵp allweddol i gefnogi dysgu sefydliadol o ffynonellau mewnol ac allanol:

- y Panel Goruchwylio Pryderon Integredig, fforwm gweithredol wythnosol sy'n adolygu materion diogelwch mewnol brys ac yn uwchgyfeirio pryderon trwy strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd;
- y Grŵp Sicrwydd Rheoleiddiol sy'n cwrdd yn fisol i oruchwylio sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i adroddiadau ac arolygiadau rheoleiddio allanol; a hefyd
- y Fforwm Dysgu Sefydliadol sy'n cwrdd yn fisol i rannu gwersi ac ysgogi gwelliant ar draws y sefydliad.

52 Mae'r grwpiau hyn yn darparu goruchwyliaeth ar wersi o ddigwyddiadau, pryderon, adolygiadau allanol a chanfyddiadau rheoleiddiol. Mae pob grŵp yn adrodd wrth y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol, sydd wedyn yn uwchgyfeirio materion allweddol at y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad trwy adroddiadau sicrwydd. Fodd bynnag, mae angen cryfhau diben y grwpiau hyn, a'r polisïau a'r prosesau sy'n eu hategu. Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o Ddysgu o Adroddiadau Rheoleiddiol ym mis Rhagfyr 2025 farn sicrwydd cyfyngedig. Fe amlygodd yr archwiliad fylchau mawr ym mhrosesu dysgu rheoleiddiol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys:

- dim polisi sicrwydd rheoleiddiol trosfwaol;
- dim cofrestr ganolog o reoleiddwyr na llwybrau adrodd;
- bod y Grŵp Sicrwydd Rheoleiddiol yn adolygu dim ond nifer fach o reoleiddwyr ac felly nad oedd yn cyflawni ei gylch gwaith;
- dim proses ffurfiol na chyson i echdynnu, rhannu na thracio gwersi ehangach o adroddiadau rheoleiddiol; a

- dim system i wirio a yw camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith neu a ydynt yn effeithiol.

53 Mewn ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Polisi Sicrwydd Rheoleiddiol. Fodd bynnag, mae gan dri o'r pum cam gweithredu sy'n cael blaenoriaeth uchel derfynau amser hirdymor sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2027, sy'n awgrymu bod angen mwy o flaenoriaeth.

54 Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn dangos ei fod yn gweithredu ar ganfyddiadau rheoleiddiol i gyflawni gwelliant, er nad yw'r gwelliannau wastad yn rhai parhaus.

55 Ym mis Mehefin 2023, fe wellodd drefniadau gan gynnwys archwilio a llywodraethu mewn gwasanaethau fasgwlaidd. O ganlyniad i hyn fe wnaeth AGIC ddileu'r statws "Gwasanaeth Sydd Angen Ei Wella'n Sylweddol". Yn Ysbyty Glan Clwyd, fe ddatrysodd yr Adran Argyfwng y prif bryderon ynghylch diogelwch cleifion a ganfu AGIC yn 2022. Cydnabu AGIC y gwelliannau a'r gwersi ac fe isgyfeiriodd y gwasanaeth yn 2024. Fodd bynnag, mae rhai problemau'n parhau i ymddangos yn adroddiadau AGIC. Mae hyn yn cynnwys pryderon ynghylch gwirio doluriau pwyso, asesiadau o'r risg o gwympiadau, gwiriadau offer, gofal mewn coridorau a chadw cofnodion.

56 Ar y cyfan, mae adroddiadau AGIC yn dangos y gall y Bwrdd Iechyd wella gwasanaethau unigol ar ôl arolygiadau. Ond mae'n ei chael hi'n anodd gwreiddio'r newidiadau hyn. Mae hyn yn fwyaf amlwg lle mae ar newid angen arweinyddiaeth gref, rolau eglur, a chydgyfrifoldeb y tu hwnt i'r gwasanaeth a adolygwyd.

57 Caiff yr heriau hyn mewn gwersi rheoleiddiol eu hadlewyrchu yn null dysgu sefydliadol ehangach y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys sut y mae'n rheoli Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau. Mae Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau yn rhai gorfodol a gyflwynir i Gronfa Risg Cymru ar ôl i'r Bwrdd Iechyd setlo achosion esgeulustod clinigol, gwneud iawn neu anaf personol. I gael ad-daliad am gostau gwneud iawn, rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddangos gwersi amlwg, adnabod achosion, nodi camau cywirol ac egluro sut y bydd yn atal y mater rhag digwydd eto.

58 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau wedi gwella: mae nifer yr Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau hwyr wedi lleihau o oddeutu 105 ym mis Medi 2024 i 79 erbyn mis Ionawr 2025, ac ymhellach i 18 erbyn mis Ionawr 2026 yn dilyn ymyrraeth wedi'i thargedu. Mae'r gwelliant hwn wedi arwain at leihad mewn cosbau ariannol, o 69 o gosbau (£172,500) yn 2024-25 i 23 o gosbau (£57,500) rhwng mis Ebrill 2025 a mis Chwefror 2026.

59 Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad mewn adroddiadau hwyr, mae llawer o achosion yn dal wedi'u gohirio am nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi darparu digon o dystiolaeth o ddysgu gwersi eto er mwyn iddynt allu cael eu cau. Mae hyn yn dangos, er bod yr ôl-groniad wedi lleihau, bod gwendidau sylfaenol o ran dangos tystiolaeth o ddysgu gwersi, prosesau sicrwydd, a systemau dysgu sefydliadol yn parhau i gyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddangos ei fod yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau mewn modd amserol a chadarn.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i adrodd ar nifer uchel o ddigwyddiadau "byth" hefyd, gan adrodd ar naw yn 2025-26. Mae hyn yn cymharu â phump a gofnodwyd yn 2024-25. Mae rhai o'r digwyddiadau hyn yn debyg iawn o ran eu natur. Mae hyn yn codi pryder pa un a yw'r Bwrdd Iechyd yn dysgu'n effeithiol o ddigwyddiadau difrifol ac yn defnyddio'r gwersi hynny i atal yr un problemau rhag digwydd eto. Mae digwyddiadau "byth" o fath tebyg sy'n digwydd dro ar ôl tro yn awgrymu nad yw gwersi'n cael eu gwreiddio'n gyson ar draws gwasanaethau eto.

61 Cododd ein hadolygiad yn 2022 bryderon ynghylch y system ar gyfer rhoi cymorth i staff ddysgu o brosiectau gwella ansawdd. Yn 2025, fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd 'Ystorfa Ddysgu' newydd i gefnogi'r Fforwm Dysgu Sefydliadol. Mae'r Ystorfa'n eistedd o fewn y System Rheoli Ansawdd ac yn dwyn gwersi ynghyd o ddigwyddiadau, cwynion, archwiliadau ac adborth mewn un llyfrgell gyson, ddibynadwy.

62 Mae’r tîm Fferylliaeth yn profi’r system newydd, ac mae’r canlyniadau cynnar yn gadarnhaol. Yn awr mae’r Bwrdd Iechyd yn ehangu’r broses o gyflwyno’r system yn ystod 2026. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni’r dull newydd yn dda, gallai’r Ystorfa gryfhau dysgu thematig a helpu timau i rannu gwersi’n rhwyddach. Gan bod y gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo, rydym o’r farn bod yr argymhelliad a wnaed gennym yn 2022 ar y gweill.
Llywodraethu, sicrhau a goruchwylio ansawdd

## Mae trefniadau llywodraethu ansawdd yn gwella ond mae gwendidau sylweddol yn dal i fodoli o ran goruchwylio risg, archwilio clinigol a chomisiynu.

### Goruchwyliaeth gorfforaethol ar ansawdd

63 Mae’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael gwybodaeth eglur a strwythuredig. Ceir agenda sefydledig a ategir gan adroddiadau ansawdd a pherfformiad integredig. Mae lefel y manylder a’r dadansoddi’n amrywio rhwng cyfarfodydd. Fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf o bapurau’n galluogi’r pwyllgor i herio perfformiad a chraffu arno mewn modd effeithiol. Maent fel arfer yn cynnwys data ar dueddiadau, meincnodi, ac adolygiadau dwfn â ffocws pendant. Mae’r adolygiadau dwfn hyn yn cynnwys meysydd allweddol sy’n achosi pryder, megis digwyddiadau diogelwch cleifion a chwynion. Ond fel a amlygwyd mewn rhannau eraill o’r adroddiad hwn ceir cyfleoedd i wella. Mae hyn yn cynnwys craffu ar ansawdd gwasanaethau wedi’u comisiynu ac archwilio clinigol lleol wedi’i dargedu.

64 Canfuom wahaniaethau yn y modd y mae’r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar Ddigwyddiadau sy’n Adroddadwy’n Genedlaethol. Nid yw'r rhifau a roddwyd i’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn ystod 2025-26 yn cyd-fynd â’r rhifau yn yr adroddiad perfformiad blynyddol drafft. Er enghraifft, dywedwyd wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad fod 14 o Ddigwyddiadau sy’n Adroddadwy’n Genedlaethol ym mis Mehefin a Gorffennaf a 26 ym mis Awst a Medi, ond mae’r adroddiad ar berfformiad yn dweud bod dau ddigwyddiad yn y naill a’r llall o’r cyfnodau hyn. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anos ymddiried yn y data a chael darlun clir o faterion diogelwch cleifion.

65 Cododd ein hadolygiad yn 2022 bryderon ynghylch sut yr oedd gwybodaeth yn llifo o is-grwpiau gweithrediadol i’r grŵp ansawdd a oedd yn gyfrifol am uwchgyfeirio risgiau i’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Ar y pryd, roedd yr adroddiadau ar y prif bwyntiau a oedd yn cael eu defnyddio, a adwaenid fel adroddiadau ‘A Driphlyg’, yn amrywio o ran eu hansawdd a’u manylder, ac fe argymhellom ni fod y Bwrdd Iechyd yn darparu canllawiau mwy eglur i awduron adroddiadau.

66 Bellach mae grwpiau gweithrediadol yn cyflwyno Adroddiadau Amlygu ac Uwchgyfeirio Ansawdd i’r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol yn lle adroddiadau A Driphlyg. Er nad oes canllawiau ysgrifenedig ffurfiol wedi cael eu cyhoeddi, mae aelodau’r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol yn darparu adborth llafar rheolaidd i awduron ar ba mor dda y mae eu hadroddiadau wedi cwmpasu’r materion allweddol, ac fe ganfu ein hadolygiad ni fod adroddiadau a gyflwynir bellach yn gyson yn cwmpasu pob un o’r pum maes allweddol gyda lefel briodol o fanylder. Yn seiliedig ar hyn, rydym o’r farn bod yr argymhelliad blaenorol wedi cael ei roi ar waith.

67 Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad rywfaint o ddyblygu mewn adroddiadau a anfonir at y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol gan is-grwpiau. Roedd y rhain yn cynnwys y Grŵp Diogelwch Cleifion, y Grŵp Sicrwydd Rheoleiddiol, a’r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol. Gallai’r gorgyffwrdd hwn arwain at negeseuon cymysg neu groes. Mae hefyd yn awgrymu nad yw rolau a chyfrifoldebau rhwng y grwpiau hyn wastad yn eglur ac y gallant orgyffwrdd mewn ffyrdd di-fudd.

## Trefniadau ar gyfer rheoli risgiau i ansawdd

68 Fe wnaethom ystyried a yw gwasanaethau'n adnabod ac yn rheoli risgiau i ansawdd a diogelwch cleifion mewn modd effeithiol. Mae timau gwasanaethau'n defnyddio cofrestrau risgiau lleol i gofnodi risgiau ar lefel gwasanaethau. Mae staff yn aml yn adnabod risgiau newydd yn ystod sesiynau trafod beunyddiol ar ddiogelwch cleifion a digwyddiadau gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Dangosfwrdd Ansawdd ac adroddiadau Datix. Mae prosesau uwchgyfeirio risgiau i'w gweld fel pe baent yn gweithio'n dda. Mae'r Panel Goruchwylio Pryderon Integredig wythnosol yn rhoi cymorth a her mewn perthynas â risgiau gweithrediadol ac yn uwchgyfeirio pryderon at y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol pan fo angen.

69 Canfu'r Adolygiad Ansawdd Cyflym o Adrannau Argyfwng ym mis Tachwedd 2025 fod timau mewn Adrannau Argyfwng yn adnabod risgiau ac yn gweithredu i'w rheoli. Fodd bynnag, ni ddarparodd yr adolygiad sicrwydd bod swyddogion yn rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol. Adroddodd fod risgiau mawr yn dal i fodoli a bod ar y Bwrdd Iechyd angen systemau gwell, prosesau adrodd mwy eglur a llif cleifion gwell. Fe wnaeth yr adolygiad hefyd amlygu gwendidau penodol sy'n dangos bod effaith camau lliniarol wedi bod yn gyfyngedig. O ystyried bod gan y Bwrdd Iechyd wasanaethau risg-uchel eraill, dylai ystyried defnyddio'r math yma o adolygiad yn fwy eang. Ar hyn o bryd, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal adolygiadau tebyg mewn gwasanaethau eraill sy'n profi pwysau.

70 Ar lefel gorfforaethol, mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn goruchwylio risgiau i ansawdd a diogelwch cleifion trwy'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan eu hadolygu yn eu tro ym mhob cyfarfod. Fodd bynnag, mae'r risgiau a gofnodir yn rhai ar lefel uchel iawn, gyda dim ond dwy risg i ansawdd ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac un ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. O ystyried pwysau ar wasanaethau ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu bod nifer o reolaethau a chamau gweithredu wedi'u gwasgaru ar draws nifer o wasanaethau a meysydd perfformiad, gan wneud goruchwylio a chraffu yn anodd. Mae hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn â pha mor effeithiol y rheolir risgiau'n gorfforaethol. Mae'r risgiau ill tair yn dal i fod uwchlaw'r terfyn goddefiant ac nid ydynt wedi lleihau am fisoedd lawer.

71 Canfu ein hadolygiad yn 2022 fod ar staff gweithrediadol angen hyfforddiant gwell mewn rheoli risgiau. Cododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yr un pryder eto ym mis Ebrill 2025 yn ystod ei adolygiad o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a rheoli risg. Er bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi sgôr sicrwydd rhesymol, fe adnabu fylchau eglur. Roedd y rhain yn cynnwys mynediad cyfyngedig at hyfforddiant rheoli risgiau a diffyg eglurder ynghylch faint o staff yr oedd disgwyl iddynt ei gwblhau.

72 Mewn ymateb, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei Fframwaith Rheoli Risg, ac fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn newydd ym mis Tachwedd 2025. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn egluro rolau a chyfrifoldebau'n fwy clir ac yn nodi anghenion hyfforddi ar gyfer staff ar dair lefel. Bellach mae'r Grŵp Craffu ar Risgiau Gweithrediadol yn gwirio cyfraddau hyfforddi bob mis ar gyfer pob grŵp. Mae cyfraddau cyfredol yn dal islaw'r targed, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio rhagor o hyfforddiant a chyfathrebiadau wedi'u targedu i wella'r niferoedd sy'n gwneud yr hyfforddiant. Gan bod angen hyfforddiant ychwanegol o hyd rydym o'r farn bod yr argymhelliad a wnaed gennym yn 2022 yn dal i fynd rhagddo.

## Sicrwydd archwilio clinigol

73 Mae gan archwiliadau clinigol lleol a chenedlaethol rôl bwysig o ran sicrhau ansawdd. Fe argymhellodd ein hadolygiad yn 2022 fod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ei raglen archwilio clinigol ar arbenigeddau risg uchel a'r cleifion sy'n aros hwyaf am driniaeth. Fe gododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yr un mater ym mis Ebrill 2025 a rhoddodd sgôr sicrwydd cyfyngedig, yn rhannol am nad oedd y cynllun archwilio Haen Dau[4] yn adlewyrchu risgiau allweddol y Bwrdd Iechyd. Adnabu hefyd fod 75% o archwiliadau Haen Tri heb gael eu cwblhau ar amser ac nad oedd y dyddiadau cwblhau wedi cael eu diweddaru ar eu cyfer, bod dim perchnogaeth eglur arnynt, neu nad oeddent yn cael eu huwchgyfeirio pan oedd oedi o ran gwneud cynnydd.

[4] Mae Haen Un yn cyfeirio at archwiliadau Cenedlaethol a / neu orfodol; mae Haen Dau yn cyfeirio at archwiliadau ar lefel gwasanaethau yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a risg leol; mae Haen Tri yn cyfeirio at archwiliadau a gychwynnir gan glinigwyr/timau

74 Mewn ymateb, fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Gwella Archwilio Clinigol ym mis Mai 2025. Nodau'r cynllun yw gwella prosesau cynllunio ar gyfer gweithredu, dysgu gwersi, uwchgyfeirio at y Tîm Gweithredol ac adrodd ar draws grwpiau ansawdd a phwyllgorau. Er bod y cynllun yn ceisio cryfhau'r modd y mae archwilio clinigol yn cael ei gynllunio ar sail risg trwy'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Strategol, mae'r Blaengynllun Archwilio Clinigol wedi'i ddiweddaru'n dal i beidio â dangos dull seiliedig-ar-risg cadarn yn ei raglen Haen Dau. O ganlyniad, rydym o'r farn bod yr argymhelliad a wnaethom yn 2022 yn dal i fynd rhagddo.

75 Canfu ein hadolygiad diweddar ddiffyg eglurder yn y broses gymeradwyo ar gyfer Blaengynllun Archwilio Clinigol 2025-26 hefyd. Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth i ddynodi'n glir pwy oedd wedi cymeradwyo'r cynllun archwilio clinigol.

76 Mae papurau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn darparu trosolwg eglur o weithgarwch archwilio clinigol Haen Un, gan gynnwys nifer yr archwiliadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn y cyfnod a chanlyniadau meincnodi. Mae adroddiadau'n amlygu meysydd lle mae perfformiad yn gryf, a oedd yn cynnwys archwiliadau clinigol ar ganser y coluddyn a diabetes yn ogystal â meysydd yr oedd gofyn cymryd camau gweithredu wedi'u targedu ynddynt, megis llwybrau fasgwlaidd. Mae adroddiadau'n darparu peth sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu lle mae archwiliadau cenedlaethol wedi amlygu risg neu danberfformiad. Ym mis Mawrth 2026, er enghraifft, roedd archwiliad fasgwlaidd cenedlaethol wedi ysgogi'r Bwrdd Iechyd i gychwyn adolygiadau o lwybrau penodol.

77 Nid yw'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael gwybodaeth am archwiliadau Haen Dau na Haen Tri, ac nid yw'n cael trosolwg llawn o gynnydd yn erbyn y Blaengynllun Archwilio Clinigol ehangach. Nid oes ganddo unrhyw wybodaeth am faint o'r archwiliadau clinigol hyn y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cwblhau, faint sy'n hwyr neu faint sydd heb ddechrau eto, ac nid oes ganddo asesiad i ddynodi pa un a yw'r rhaglen ar y cyfan ar y trywydd iawn. O ganlyniad, er bod gan y Pwyllgor olwg dda ar allbynnau archwilio clinigol, ni all farnu a yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei raglen archwilio clinigol ehangach yn effeithiol neu yn unol â'r disgwyliadau.

## Sicrwydd ynghylch gwasanaethau wedi'u comisiynu

78 Mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu ystod sylweddol o wasanaethau ar ran cleifion gogledd Cymru ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd gan ddarparwyr eraill y GIG. Mae'r Ffurflen Fonitro Fisol ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru'n dynodi bod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd gwariant ar wasanaethau gan ddarparwyr eraill y GIG yn cyrraedd bron i £400 miliwn yn 2025-26. O ystyried faint o driniaeth a gwariant y mae hyn yn ei olygu mae'n hanfodol bod trefniadau effeithiol ar gyfer goruchwylio ansawdd yn eu lle.

79 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ar hyn o bryd. Fe ddatblygwyd Fframwaith Sicrwydd Comisiynu drafft ym mis Gorffennaf 2024, ond nid oes fersiwn derfynol, gytunedig o'r Fframwaith hwn wedi cael ei gyhoeddi ar adeg ysgrifennu. Yn niffyg hyn, ceir bylchau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaethau hyn. Canfu ein hadolygiad ni nad yw'r Fframwaith Rheoli Ansawdd a'r Polisi Pryderon Integredig yn nodi disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu. Ceir diffyg eglurder yn nhrefniadau'r Bwrdd Iechyd hefyd o ran sut y bydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd mewn perthynas â gofal cleifion a roddwyd ar gontract allanol.

80 Fe wnaeth ein hadolygiad yn 2022 argymell bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu mesurau ansawdd i adlewyrchu gwasanaethau wedi'u comisiynu ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Yn yr un modd, mae adolygiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon)[5] ac Adolygiadau Archwilio Mewnol yn amlygu nad oes trefniadau effeithiol i sicrhau ansawdd gwasanaethau wedi'u comisiynu. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad Archwilio Mewnol â sgôr 'Dim Sicrwydd' o Wasanaethau Cleifion wedi'u Contractio yn 2022. Pan gynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad dilynol o gynnydd ym mis Mai 2025, nid oedd yr un o'r pedwar argymhelliad blaenoriaeth uchel wedi cael eu rhoi ar waith gan arwain at ailadrodd y sgôr 'Dim Sicrwydd'. Roedd yr argymhellion hynny'n ymwneud â gwendidau difrifol mewn contractio gwasanaethau cleifion, gan gynnwys:

---

[5] Ymchwiliad i Gŵyn yn erbyn Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr: Adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Achos 202301141, Ebrill 2025 ac Ymchwiliad Ar Ei Ysgogiad

- diffyg Fframwaith Sicrwydd Comisiynu, polisi neu Weithdrefn Weithredu Safonol sy'n gadarn, gyda llinellau uwchgyfeirio, rolau, cyfrifoldebau a gofynion ar gyfer goruchwyliaeth yn aneglur;
- diffyg rheolaethau a goruchwyliaeth i sicrhau bod darparwyr wedi'u comisiynu'n ymlynu wrth gytundebau contractiol;
- gwendidau mewn mesurau ansawdd contractiol, ac mewn gweithdrefnau uwchgyfeirio ar gyfer materion ansawdd; a
- gwendidau o ran adolygu a chraffu ar ansawdd darparwyr y GIG, a ategir gan ddata perfformiad.

81 Fe gododd yr Ombwdsmon bryderon bod gweithgarwch monitro contractau gofal wedi'i gomisiynu gan y Bwrdd Iechyd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i adroddiadau ariannol nag i ddiogelwch cleifion ac ansawdd gwasanaethau. O ganlyniad, fe argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Bwrdd Iechyd yn cwblhau ac yn gweithredu Fframwaith Sicrwydd Comisiynu o fewn chwe mis. Fe ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i wneud hyn gyntaf erbyn 30 Medi 2025. Yn ddiweddarach fe estynnodd y terfyn amser i fis Ionawr 2026. Ar adeg ein gwaith maes ni, roedd y Bwrdd Iechyd yn ceisio estyniad arall am bod gwaith ar y Fframwaith yn dal i fynd rhagddo.

82 Yn sgîl cynnydd cyfyngedig ar Fframwaith Sicrwydd Comisiynu eglur, mae adroddiadau perfformiad rheolaidd y Bwrdd Iechyd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn dal i beidio â chynnwys metrigau ansawdd ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu'n allanol na sicrwydd ehangach ynghylch ansawdd neu ddiogelwch gofal a ddarparwyd trwy wasanaethau wedi'u comisiynu. Fe wnaethom nodi achos unigol o welliant ym mis Mawrth 2026, pan gafodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad bapur ar y rhaglen fewnoli genedlaethol. Fodd bynnag, deallwn mai eithriad yw hyn yn hytrach na dull systematig.

---

Ei Hun a gyhoeddwyd dan a23 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Awst 2021

# Argymhellion

83 Yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hadolygiad dilynol, rydym wedi cyflwyno naw argymhelliad newydd.

**Datblygu a monitro cynllun ansawdd ar ei ben ei hun**

**A1** Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu Cynllun Ansawdd amlflwyddyn, ar ei ben ei hun sy'n nodi'n glir beth yw ei flaenoriaethau ansawdd, ei ddeilliannau bwriadedig, atebolrwydd ymhlith arweinwyr, a'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni gwelliant parhaus **(paragraffau 10-16)**.

**A2** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y blaenoriaethau ansawdd, metrigau a manteision disgwyliedig yn ei gynllun ansawdd yn cael eu monitro'n rheolaidd trwy'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, gydag adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gan ddefnyddio dangosyddion ystyrlon **(paragraffau 10-16)**.

**Goruchwyliaeth ar Hyfforddiant ar gyfer Rheoli Risg**

**A3** Dylai'r Bwrdd Iechyd fonitro ac adrodd ar hyfforddiant i'r gweithlu ar gyfer pob lefel rheoli risg yn rheolaidd (e.e. yn chwarterol) a gweithredu lle y bo cyfraddau hyfforddi'n dal i fod islaw'r targedau. **(paragraffau 68-72)**.

**Dangos bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu**

**A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau ansawdd a pherfformiad yn cynnwys tystiolaeth eglur o ddysgu gwersi, gwelliannau a gyflawnwyd, a newid mesuradwy dros amser yn enwedig:

- deilliannau gwaith gwella sy'n gysylltiedig â marwolaethau;
- camau gweithredu o gwynion, digwyddiadau, ac adolygiadau thematig; a
- thystiolaeth o wersi o wybodaeth reoleiddiol allanol **(paragraffau 47-61).**

**Gwella dibynadwyedd adroddiadau ar Ddigwyddiadau sy'n Adroddadwy'n Genedlaethol**

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd ymchwilio i'r anghysonderau a chysoni'r anghysonderau rhwng Digwyddiadau sy'n Adroddadwy'n Genedlaethol a gynhwysir mewn adroddiadau i'w bwyllgorau a'i adroddiad blynyddol ar gyfer 2025-26 a chryfhau trefniadau i sicrhau bod adroddiadau yn y dyfodol yn ddibynadwy **(paragraff 64).**

**Cryfhau goruchwyliaeth ar ansawdd gwasanaethau wedi'u comisiynu**

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu fframwaith goruchwylio comisiynu i ymdrin yn llawn ag argymhelliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru **(paragraffau 78-82)**.

**A7** Datblygu adroddiadau sicrwydd eglur a rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar ansawdd gwasanaethau wedi'u comisiynu a'r rheiny'n cynnwys metrigau ansawdd, gwybodaeth am brofiad cleifion, ac asesiadau risg ar gyfer gofal a ddarperir trwy wasanaethau wedi'u comisiynu ac a roddwyd ar gontract allanol **(paragraffau 78-82)**.

**Gwella dealltwriaeth staff am systemau ansawdd a'u hymgysylltiad â hwy**

**A8** Gan adeiladu ar y rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth, dylai'r Bwrdd Iechyd darparu adroddiadau cynnydd a gwerthuso ar weithredu'r System Rheoli Ansawdd ar gyfer y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol **(paragraffau 23-27)**.

**Cryfhau goruchwyliaeth ar gwynion a'r modd y cânt eu huwchgyfeirio**

**A9** Dylai'r Bwrdd Iechyd wella adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar gwynion trwy:

- sicrhau bod cwynion a ail-agorwyd yn cael eu hamlygu'n rheolaidd fel risg sy'n dod i'r amlwg;
- darparu dadansoddiad o achosion sylfaenol ac ansawdd ymchwiliadau; a
- monitro'r modd y cydymffurfir â gofynion hyfforddiant ar ymdrin â chwynion **(paragraffau 36-43).**

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Rydym wedi asesu:

- a yw trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn ategu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da;
- a yw’r Bwrdd Iechyd wedi rhoi argymhellion archwilio blaenorol a gododd o’n hadolygiad yn 2022 o’i drefniadau llywodraethu ansawdd ar waith ac a yw’n gwireddu deilliannau a manteision bwriadedig yr argymhellion hynny; ac
- a oes dull corfforaethol cadarn o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau a chraffu arnynt yn unol â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd a’r Ddyletswydd Gonestrwydd.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â’r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau a blaenoriaethau eglur sy’n cael eu deall yn dda mewn perthynas ag ansawdd?
- A yw rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd wedi’u nodi’n glir ac yn cael eu deall?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i ategu’r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd?
- A yw’r Bwrdd Iechyd yn dangos yn gyson ac yn effeithiol sut y mae’n dysgu gwersi o ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol, gan gynnwys adolygiadau o farwolaethau, adborth cleifion a staff a rheoleiddwyr allanol?

- A oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cryf o reoli risg mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun archwilio clinigol sydd wedi'i ddiweddaru ac sy'n seiliedig ar risg, a gymeradwywyd ac sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd oruchwyliaeth dda ar ansawdd ei wasanaethau wedi'u comisiynu?
- A oes goruchwyliaeth reolaidd sy'n seiliedig ar wybodaeth dda ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion ar lefelau gweithrediadol a chorfforaethol?

## Meini Prawf

Wrth gasglu tystiolaeth yn erbyn y cwestiynau uchod, roedd arnom eisiau i'r Bwrdd Iechyd ddangos:

- Bod ganddo drefniadau llywodraethu effeithiol i ategu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da, yn benodol mewn perthynas â risg, cwynion, diwylliant staff a dysgu gwersi;
- Ei fod wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig o ran rhoi'r argymhellion archwilio a wnaethom yn 2022 ar waith (fel a nodir yn **Atodiad 2**) i ymdrin â'r materion a'r pryderon a adnabuwyd yn yr archwiliad gwreiddiol; a hefyd
- Ei fod yn ateb gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) mewn perthynas â'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd.

# Dulliau

Fe wnaethom ni ein gwaith archwilio rhwng mis Medi 2025 a mis Ionawr 2026.

Fe wnaethom adolygu'r dogfennau canlynol:

- Y Fframwaith Rheoli Ansawdd Integredig
- Y Polisi Pryderon Integredig
- Adroddiadau Archwilio Mewnol perthnasol

- Adroddiadau Er Budd y Cyhoedd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Adroddiadau pwyllgorau a grwpiau gweithrediadol, gan gynnwys papurau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, adroddiadau'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol
- Adroddiadau blynyddol perthnasol, gan gynnwys Adroddiadau ar y Cynllun Archwilio Clinigol, y Ddyletswydd Ansawdd, y Ddyletswydd Gonestrwydd a Gweithio i Wella
- Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Gwasanaethau

Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:

- Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
- Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Interim
- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
- Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
- Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
- Pennaeth Ansawdd
- Pennaeth Rheoli Risg
- Cyfarwyddwyr Cymunedau Iechyd Integredig
- Pennaeth Profiad Cleifion
- Pennaeth Diogelwch Cleifion
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Menywod
- Pennaeth Bydwreigiaeth a Gynaecoleg
- Cyfarwyddwr Gweithrediadau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
- Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol

- Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymorth Diagnostig a Chlinigol Arbenigol

# 2 Argymhellion blaenorol

Fe wnaethom ni'r argymhellion canlynol yn 2022 yn dilyn ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos cynnydd rhannol o ran rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith. Rydym wedi amlygu statws yr argymhellion hyn yn seiliedig ar ein hadolygiad dilynol.

| Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br>Canfuom nad aeth y Bwrdd Iechyd ati'n ffurfiol i adolygu ei flaenoriaethau gwella ansawdd yng ngoleuni canlyniadau COVID-19. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei Strategaeth Gwella Ansawdd newydd yn nodi sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn rheoli ac yn lliniaru'r niweidiau posibl sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Medi 2022 | **Wedi'i ddisodli** |

| Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Canfuom nad yw'r holl staff gweithrediadol yn cael eu hyfforddi i gofnodi risgiau clinigol ac anghlinigol a llunio cofrestrau risgiau. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan staff lefelau digonol o hyfforddiant rheoli risg fel eu bod yn gallu cyfrannu'n hyderus at y broses adnabod ac uwchgyfeirio risg.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Wedi'i gwblhau | **Ar y Gweill**<br><br>**(gweler paragraff 71)** |
| **Argymhelliad 3**<br><br>Mae Hyb Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd (BCUQI) wedi datblygu cronfa ddata gwella ansawdd i alluogi staff i rannu, mabwysiadu a dysgu o brosiectau gwella ansawdd presennol. Fodd bynnag, canfuom nad yw'r gronfa ddata'n cael ei defnyddio rhyw lawer. Dylai'r Bwrdd Iechyd hyrwyddo'r gronfa ddata ac annog staff i'w defnyddio'n rheolaidd trwy osod targedau ar gyfer cyfranogi, trwy adolygu lefel yr ymgysylltiad yn rheolaidd a thrwy weithredu os yw ymgysylltiad yn rhy isel.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Wedi'i gwblhau | **Ar y Gweill**<br><br>**(gweler paragraff 62)** |

| Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 4**<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailddechrau archwiliadau clinigol wedi i'r rhan fwyaf o weithgarwch gael ei atal yn ystod y pandemig. Dylai'r Bwrdd Iechyd amcanu at ddefnyddio'i raglen o waith archwilio clinigol i ganolbwyntio ar y risg o niwed o ganlyniad i'r pandemig. Er enghraifft, i ddeall yn well beth yw canlyniadau arosiadau hir neu waethygiad cyflyrau cronig. Gallai'r archwiliadau gael eu targedu at arbenigeddau risg uchel.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Mehefin 2022 | **Ar y Gweill**<br><br>**(gweler paragraffau 73 - 74)** |
| **Argymhelliad 5**<br><br>Canfuom nad yw adroddiadau adolygu marwolaethau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad mewn modd amserol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael adroddiad adolygu marwolaethau chwarterol, sy'n amlygu gwersi a pha gamau gweithredu a gymerwyd.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Gorffennaf 2022 | **Wedi'i gwblhau**<br><br>**(gweler paragraff 48)** |

| **Argymhelliad** | **Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd** |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 6**<br><br>Canfuom fod adolygiadau o farwolaethau, ar y cyfan, yn cael eu harwain gan staff meddygol, ond bod awydd am adolygiadau amlddisgyblaethol o farwolaethau. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio sefydlu system lle mae cymysgedd amlddisgyblaethol o staff yn cael eu cynnwys yn rheolaidd mewn adolygiadau o farwolaethau.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Hydref 2022 | **Wedi'i gwblhau**<br><br>**(gweler paragraff 49)** |
| **Argymhelliad 7**<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad oes ganddo eto broses i rannu gwersi ar draws y sefydliad mewn modd systematig. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio'r fframwaith llywodraethu integredig newydd a'r Hyb Gwella Ansawdd (BCUQI) fel offer i gefnogi dysgu sefydliadol a rhannu arfer da ar draws y sefydliad.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Hydref 2022 | **Ar y Gweill**<br><br>**(gweler paragraff 61)** |

| Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 8**<br><br>Dim ond 37.9% o'r staff yn y Bwrdd Iechyd a ymatebodd i arolwg staff y GIG oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn cymryd camau gweithredu effeithiol pan fo bwlio, aflonyddu neu gam-drin yn digwydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei systemau ar gyfer rheoli pryderon staff mewn perthynas â bwlio, aflonyddu neu gam-drin, ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon hynny ac ar gyfer dysgu ohonynt.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Wedi'i gwblhau | **Wedi'i gwblhau**<br><br>**(gweler paragraffau 33-35)** |
| **Argymhelliad 9**<br><br>Canfuom nad oedd timau gweithredol yn gwybod pa gyfran o staff oedd wedi cael eu hyfforddi i ymchwilio i gwynion, digwyddiadau a dadansoddi achosion sylfaenol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu lefelau'r hyfforddiant ymdrin â chwynion ar draws y sefydliad. Os yw hyn yn dangos diffygion, dylid ehangu'r rhaglen o hyfforddiant.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Wedi'i gwblhau | **Ar y Gweill**<br>**(gweler paragraffau 40-42)**<br>**(gweler paragraffau 41)** |

| Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 10**<br><br>Roedd llai na hanner (42%) yr ymatebwyr i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion ar gyfer y maes y maent yn gweithio ynddo. Er bod adborth cleifion yn cael ei rannu gyda wardiau'n fisol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff ar wardiau'n ymwybodol o'r adborth hwn a'i fod yn hygyrch i staff.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Hydref 2022 | **Wedi'i gwblhau**<br><br>**(gweler paragraffau 44-45)** |
| **Argymhelliad 11**<br><br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd fformat adrodd newydd (A driphlyg) i wella llif sicrwydd ansawdd. Ond canfuom fod lefelau'r manylder a ddarperir yn yr adroddiadau'n amrywio ychydig. I leihau'r risg y bydd materion ansawdd a diogelwch yn cael eu colli neu'n peidio â chael eu huwchgyfeirio'n gywir dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu canllawiau ar gyfer staff ar ddefnyddio'r templed newydd, gan nodi'n enwedig faint o fanylder a ddisgwylir a sut i gytuno pa faterion sy'n cael eu huwchgyfeirio.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Gorffennaf 2022 | **Wedi'i gwblhau**<br><br>**(gweler paragraffau 64-65)** |

| Argymhelliad | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 12**<br><br>Er bod y mesurau yn yr adroddiad integredig ar berfformiad yn gyson â fframwaith cyflawni'r GIG, canfuom nad oes mesurau ansawdd y cytunwyd arnynt yn lleol na mesurau ehangach fel ar gyfer gwasanaethau cymunedol. Trwy'r Strategaeth Gwella Ansawdd newydd, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu mesurau ansawdd cyfredol gyda golwg ar ddatblygu mesurau sy'n adlewyrchu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ac yn eu comisiynu ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.<br><br>**Dyddiad targed gwreiddiol ar gyfer cwblhau**: Hydref 2022 | **Dim Cynnydd**<br><br>**(gweler paragraffau 78-82)** |

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau** | Adroddiadau ffurfiol a gyflwynir i Gronfa Risg Cymru sy'n disgrifio'r camau dysgu a gwella a gymerwyd gan gyrff GIG Cymru yn dilyn achosion o esgeulustod clinigol, gwneud iawn, neu anaf personol. Creffir arnynt gan y Panel Cynghori ar Ddysgu, sy'n sicrhau bod gwersi wedi cael eu rhoi ar waith i atal yr achosion rhag digwydd eto cyn bod Cronfa Risg Cymru'n ad-dalu costau hawliadau. |
| **Archwilio Clinigol** | Y broses sy'n ceisio gwella gofal a deilliannau cleifion trwy adolygu gofal yn systemig yn erbyn meini prawf penodol a gweithredu newid |
| **Codi Llais yn Ddiogel** | Fframwaith GIG Cymru sy'n sicrhau bod yr holl staff yn gallu codi pryderon yn ddiogel, yn gyfrinachol a heb ofni cael eu fictimeiddio, a bod sefydliadau'n gwrando, yn ymateb, ac yn dysgu o'r pryderon hynny i wella ansawdd a diogelwch gofal. |
| **Cronfa Risg Cymru** | Mae Cronfa Risg Cymru'n rhan o wasanaeth Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG. Mae'n darparu'r modd i bob Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd yng Nghymru allu indemnio rhag risg. Rôl Cronfa Risg Cymru yw bod â dull integredig o asesu risgiau, rheoli hawliadau, ad-dalu a dysgu i wella. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Digwyddiadau “Byth”** | Digwyddiadau Difrifol y gellir eu hatal yn llwyr am bod canllawiau neu argymhellion diogelwch ar gael ar lefel genedlaethol ac y dylent fod wedi cael eu rhoi ar waith gan yr holl ddarparwyr gofal iechyd. |
| **Dyletswydd Ansawdd** | Rhwymedigaeth gyfreithiol ar sefydliadau GIG Cymru i fynd ati’n barhaus i wella ansawdd gwasanaethau gofal iechyd a deilliannau i bobl Cymru yw’r Ddyletswydd Ansawdd. Mae’r Ddyletswydd yn mynnu ffocws ar ansawdd ym mhob penderfyniad strategol a bod cynnydd o ran gwella ansawdd yn cael ei fonitro’n barhaus. |
| **Dyletswydd Gonestrwydd** | Gofyniad cyfreithiol i sefydliadau GIG Cymru fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaethau pan fo niwed yn digwydd yn ystod eu gofal yw’r Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu gyda’r claf. |
| **Fforwm Dysgu Sefydliadol** | Y fforwm yn y Bwrdd Iechyd lle mae arweinwyr a staff yn rhannu gwersi a mewnwelediadau ar gyfer gwella. |
| **Fframwaith Rheoli Ansawdd** | Dogfen fframwaith sydd wedi’i bwriadu i egluro sut y bydd byrddau iechyd yn mabwysiadu eu System Rheoli Ansawdd. |
| **Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol** | Uwch grŵp gweithredol sy’n gyfrifol am oruchwylio’r modd y cyflawnir blaenoriaethau ansawdd, diogelwch a llywodraethu clinigol. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Grŵp Diogelwch Cleifion** | Un o is-grwpiau'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol sy'n gyfrifol am gydlynu a goruchwylio gweithgarwch diogelwch cleifion. |
| **Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Strategol** | Uwch grŵp llywodraethu clinigol sy'n goruchwylio ac yn hybu effeithiolrwydd clinigol, gan sicrhau bod gofal yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwella ansawdd a strategol y Bwrdd Iechyd. Mae'n ategu ymdrechion sefydliadol ehangach i wella deilliannau clinigol, ansawdd, a phrofiad cleifion. |
| **Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr** | Is-grŵp i gefnogi gwaith y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol ac i godi proffil ac amlygrwydd profiad cleifion a gofalwyr a darparu sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn gwrando ar adborth cleifion a gofalwyr ac yn dysgu ohono. |
| **Gweithio i Wella** | Proses statudol gan GIG Cymru i ymdrin â phryderon, cwynion, digwyddiadau diogelwch cleifion, a gwneud iawn, gan sicrhau yr ymchwilir i faterion yn deg, yn agored, ac mewn modd amserol dan Reoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011. Mae'n darparu llwybr clir i godi pryderon ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddysgu o gamgymeriadau a chymryd camau cywirol. |
| **Gwrando ar Bobl** | System gwynion newydd GIG Cymru sy'n disodli Gweithio i Wella. Mae'n canolbwyntio ar ymdrin â phryderon yn dosturiol, yn glir ac yn amserol, gan ddefnyddio trafodaethau gwrando, datrys yn gynnar, a phroses ac iddi ddau gam gydag iawndal posibl hyd at £50,000. Ei nod yw sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a bod y GIG yn dysgu o gwynion. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Llywodraethu Ansawdd** | Y cyfuniad o strwythurau, prosesau ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain ar berfformiad a sicrhau perfformiad o ansawdd da, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad cleifion. |
| **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | Corff annibynnol sy'n ymchwilio i gwynion cyhoeddus am gamweinyddu, methiannau wrth ddarparu gwasanaethau ac anghyfiawnder gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys cyrff y GIG ac awdurdodau lleol. |
| **Polisi Pryderon Integredig** | Y polisi ffurfiol ar gyfer rheoli cwynion, hawliadau a digwyddiadau diogelwch cleifion dan y rheoliadau Gweithio i Wella. |
| **Sylfeini ar gyfer y Dyfodol** | Rhaglen fawr o newid sefydliadol sydd wedi'i bwriadu i alinio strwythurau, systemau, prosesau, diwylliant, a strategaeth y Bwrdd Iechyd i ategu gwelliant a chynaliadwyedd hirdymor fel rhan o'i adferiad o fesurau arbennig. |
| **System Rheoli Ansawdd** | Y fframwaith sefydliad cyfan y mae'n ofynnol i gyrff GIG Cymru ei roi ar waith i sicrhau eu bod yn mynd ati'n barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy i ddiwallu anghenion y boblogaeth, yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 |

# 4 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr

| Argymhelliad | | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a monitro cynllun ansawdd ar ei ben ei hun** | | | | |
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu Cynllun Ansawdd amlflwyddyn, ar ei ben ei hun sy'n nodi'n glir beth yw ei flaenoriaethau ansawdd, ei ddeilliannau bwriadedig, atebolrwydd ymhlith arweinwyr, a'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni gwelliant parhaus **(paragraffau 10-16).** | Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu ac yn cytuno ar ddogfen sy'n cynnwys set o flaenoriaethau ansawdd sefydliad cyfan wedi'u diffinio'n glir y byddir yn adrodd arni ac a fydd yn cyd-fynd â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r CTCI, gyda deilliannau mesuradwy, arweinwyr gweithredol a chlinigol penodol, a goruchwyliaeth ddiffiniedig o fewn y trefniadau llywodraethu trwy'r Grŵp Cyflawni | Medi 2026 | Cyfarwyddwyr Clinigol |

| Argymhelliad | | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y blaenoriaethau ansawdd, metrigau a manteision disgwyliedig yn ei gynllun ansawdd yn cael eu monitro'n rheolaidd trwy'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, gydag adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gan ddefnyddio dangosyddion ystyrlon **(paragraffau 10-16).** | Ansawdd Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.<br><br>Bydd cynnydd yn cael ei fonitro trwy'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol a byddir yn adrodd arno bob chwe mis wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, gyda hynny'n cael ei ategu gan gyfres fanylach o ddangosyddion ansawdd a metrigau sicrwydd. | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwyr Clinigol |
| **Goruchwyliaeth ar Hyfforddiant ar gyfer Rheoli Risg** | | | | |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd fonitro ac adrodd ar hyfforddiant i'r gweithlu ar gyfer pob lefel rheoli risg yn rheolaidd | Bydd trefniadau'n cael eu cryfhau i gynnwys targedau cydymffurfio diffiniedig, proses adrodd reolaidd, ac uwchgyfeirio lle mae perfformiad | Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| (e.e. yn chwarterol) a gweithredu lle y bo cyfraddau hyfforddi'n dal i fod islaw'r targedau **(paragraffau 68-72).** | yn syrthio islaw lefelau cytunedig, gan ddarparu sicrwydd gwell ar gyfer y Bwrdd ynghylch gallu'r gweithlu o ran rheoli risg. | | |
| **Dangos bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu**<br>**A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau ansawdd a pherfformiad yn cynnwys tystiolaeth eglur o ddysgu gwersi, gwelliannau a gyflawnwyd, a newid mesuradwy dros amser yn enwedig :<br>• deilliannau gwaith gwella sy'n gysylltiedig â marwolaethau;<br>• camau gweithredu o gwynion, digwyddiadau, ac adolygiadau thematig; a<br>• thystiolaeth o wersi o wybodaeth reoleiddiol allanol **(paragraffau 47-61).** | Mae gwaith wedi dechrau i gryfhau sut y mae gwybodaeth am ddysgu gwersi'n cael ei chasglu, sut y dangosir tystiolaeth o ddysgu gwersi a sut yr adroddir ar hynny. Bydd hyn yn cynnwys:<br>• Gwreiddio'r Ystorfa Ddysgu o fewn y System Rheoli Ansawdd yn ychwanegol at archwilio a gweithredu mecanwaith effeithiol i ledaenu gwersi o fewn holl haenau'r sefydliad;<br>• Gwella prosesau adrodd i ddangos cysylltiadau eglur rhwng digwyddiadau, cwynion, a gwelliannau wedi hynny; a<br>• Chyflwyno mesurau i ddangos effaith dros amser, gan gynnwys | Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwyr Clinigol |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | dangosyddion sy'n seiliedig ar ddeilliannau.<br>Bydd adroddiadau yn y dyfodol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn rhoi mwy o bwyslais ar newid amlwg a sicrwydd bod gwersi wedi cael eu gwreiddio. | | |
| **Gwella dibynadwyedd adroddiadau ar Ddigwyddiadau sy'n Adroddadwy'n Genedlaethol**<br>**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd ymchwilio i'r anghysonderau a chysoni'r anghysonderau rhwng Digwyddiadau sy'n Adroddadwy'n Genedlaethol a gynhwysir mewn adroddiadau i'w bwyllgorau a'i adroddiad blynyddol ar gyfer 2025-26 a chryfhau trefniadau i | Bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar unwaith i gywiro anghysonderau mewn adroddiadau am Ddigwyddiadau sy'n Adroddadwy'n Genedlaethol ar draws adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau. | Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Argymhelliad | | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | sicrhau bod adroddiadau yn y dyfodol yn ddibynadwy **(paragraff 64).** | | | |
| **Cryfhau goruchwyliaeth ar ansawdd gwasanaethau wedi'u comisiynu** | | | | |
| **A6** | Dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu fframwaith goruchwylio comisiynu i ymdrin yn llawn ag argymhelliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru **(paragraffau 78-82)**. | Bydd gwaith i gwblhau a gweithredu Fframwaith Sicrwydd Comisiynu'n cael ei flaenoriaethu, gan ymdrin â chanfyddiadau blaenorol gan archwilwyr a'r Ombwdsmon. | Medi 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |
| **A7** | Datblygu adroddiadau sicrwydd eglur a rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar ansawdd gwasanaethau wedi'u comisiynu a'r rheiny'n cynnwys metrigau ansawdd, gwybodaeth am brofiad cleifion, ac asesiadau risg ar gyfer gofal a ddarperir trwy wasanaethau wedi'u | Bydd adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael eu gwella i gynnwys gwybodaeth am ansawdd, diogelwch, a phrofiad cleifion mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u comisiynu. | Medi 2026 | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |

| Argymhelliad | | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | comisiynu ac a roddwyd ar gontract allanol **(paragraffau 78-82).** | | | |
| **Gwella dealltwriaeth staff am systemau ansawdd a'u hymgysylltiad â hwy** | | | | |
| **A8** | Gan adeiladu ar y rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth, dylai'r Bwrdd Iechyd darparu adroddiadau cynnydd a gwerthuso ar weithredu'r System Rheoli Ansawdd ar gyfer y Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol **(paragraffau 23-27).** | Bydd gwaith i roi'r System Rheoli Ansawdd ar waith yn cael ei gyflymu fel elfen allweddol o'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys:<br>• Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd eglur ar gyfer cyflawni'r System Rheoli Ansawdd;<br>• Ei rhoi ar waith yn raddol ar draws gwasanaethau; ac<br>• Adroddiadau cynnydd a gwerthuso rheolaidd i'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol. | Medi 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| Argymhelliad | | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **Cryfhau goruchwyliaeth ar gwynion a'r modd y cânt eu huwchgyfeirio** | | | | |
| **A9** | Dylai'r Bwrdd Iechyd wella adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar gwynion trwy:<br>• sicrhau bod cwynion a ail-agorwyd yn cael eu hamlygu'n rheolaidd fel risg sy'n dod i'r amlwg;<br>• darparu dadansoddiad o achosion sylfaenol ac ansawdd ymchwiliadau; a<br>• monitro'r modd y cydymffurfir â gofynion hyfforddiant ar ymdrin â chwynion **(paragraffau 36-43).** | Bydd trefniadau goruchwylio cwynion yn cael eu cryfhau trwy:<br>• Adrodd yn well ar dueddiadau, gan gynnwys cwynion a ail-agorwyd fel dangosydd risg penodol;<br>• Mynd ati'n well i ddadansoddi achosion sylfaenol ac ansawdd ymchwiliadau; a<br>• Monitro ac adrodd ar y modd y cydymffurfir â hyfforddiant ar gyfer staff sy'n cynnal ymchwiliadau. | Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru’n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a’r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n gorff a sefydlwyd i gefnogi’r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw’r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.